**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Thrawsnewid a Cyngor y Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | T J Hennegan | M B Lewis |
| S Pritchard | A H Stevens | L J Tyler-Lloyd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth Gwasanaethau Eiddo |
| Anthony Evans | Rheolwr Designprint |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Joyce-Brown | Cyfreithiwr |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: J A Hale ac E T Kirchner

---

## 27 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 28 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

## 29 Post Hybrid.

Darparodd Anthony Evans, Rheolwr Designprint, gyflwyniad ar 'Arweiniad i Bost Hybrid' a oedd yn cynnwys: -

- Swyddfa ddi-bapur
- Trawsnewidiad digidol yn yr amgylchedd printio
- Beth yw post hybrid?
- Costau caled - mewnosod â llaw
- Costau cudd
- Llif gwaith
- Allbwn argraffu

- Trawsnewidiad digidol
- Nodweddion digidol ac e-bostio
- Sicrhau bod y system yn addas i'r dyfodol
- Post Hybrid
- Sut mae'n gweithio
- Manteision

Gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno a ymatebodd yn briodol. Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar: -

- Ddiogeledd a chyfrinachedd
- Llofnodion electronig
- Dosbarthu post hybrid - angen achos busnes i gymharu opsiynau
- Arbedion post hybrid
- Cyflymder post hybrid

Diolchodd y pwyllgor i Reolwr Designprint am y cyflwyniad.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

**30 Gwasanaethau yn y Gymuned / Fy Nghlydach.**

Darparodd Geoff Bacon, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo ddiweddariad am y Gwasanaethau yn y Gymuned/Fy Nghlydach.

Sefydlwyd gwasanaethau yn y gymuned â'r nod o wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch. Y gobaith oedd y byddai trydydd partïon fel yr heddlu, y Gwasanaeth Iechyd ac elusennau'n rhan o hyn ynghyd â chysylltu Swyddfeydd Tai Rhanbarthol a llyfrgelloedd. Roedd angen cyrraedd targed arbedion hefyd gyda'r fenter hon.

Sefydlwyd y Gwasanaethau yn y Gymuned cyntaf yng Nghlydach fel cynllun peilot a fyddai'n helpu i ddatblygu model ar gyfer Gwasanaethau yn y Gymuned yn y dyfodol. Fe'i sefydlwyd yn Llyfrgell Clydach a'i ail-frandio’n Fy Nghlydach.

O ran y gwersi a ddysgwyd o Fy Nghlydach, nid yw'r ymgysylltu wedi bod mor gadarnhaol ag y gobeithiwyd. Cafwyd problemau hefyd o ran integreiddio a rheoli rolau. Nid yw cynllun yr adeilad presennol wedi'i newid, ac awgrymwyd y byddai addasu'r cynllun yn ogystal â mwy o arwyddion yn ddefnyddiol.

Roedd angen datblygu Gwasanaethau yn y Gymuned a chyrraedd y targed arbedion. Gorseinon fyddai'r ardal nesaf i sefydlu Gwasanaethau yn y Gymuned. Roedd angen ystyried gweithrediad a rheolaeth Gwasanaethau yn y Gymuned er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r gwersi a ddysgwyd o Fy Nghlydach.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Cyfranogaeth aelodau ward yn y fenter Gwasanaethau yn y Gymuned a rhinweddau cynnwys aelodau wardiau cyfagos yn y broses.

- Ystyried gwelliannau i gynllun yr adeilad yn Fy Nghlydach a'r Gwasanaethau yn y Gymuned yn y dyfodol.
- Ystyried lleoliad ardaloedd cyfrifiaduron/Skype er mwyn rhoi preifatrwydd a chaniatáu i ddinasyddion ymdrin â materion preifat.
- Hyrwyddo a hysbysebu Gwasanaethau yn y Gymuned gan gynnwys arwyddion yn y lleoliad.
- Disgrifiadau swydd ac integreiddio'r rolau amrywiol sy'n rhan o'r Gwasanaethau yn y Gymuned
- Newid mewn diwylliant o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r defnydd o'r adeilad
- Yr angen am arwyddion neu staff i gyfeirio pobl i wneud yr hyn y gallant ei wneud ac i ba ardaloedd y mae angen iddynt fynd
- Ailystyried yr enw Fy Nghlydach a Gwasanaethau yn y Gymuned yn y dyfodol i fynd i'r afael yn well â'r hyn ydyw a pheidio â rhwystro dinasyddion o ardaloedd cyfagos rhag defnyddio'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd** y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol yn ysgrifennu at y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaethau Eiddo i amlinellu argymhellion y pwyllgor hwn.

## 31 Cynllun Gwaith 2018/2019.

Trafododd y pwyllgor Gynllun Gwaith 2018/2019.

Cytunwyd y caiff gweithdy ei sefydlu ym mis Mawrth ar Gydgynhyrchu ac y dylid canslo'r cyfarfod pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 26 Mawrth 2019.

Adroddwyd nad oedd yr Ap Dinasyddion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei dynnu oddi ar Gynllun Gwaith 2018/2019.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariadau i'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.25 pm

**Cadeirydd**